Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Cydraddoldeb
Cyflogwr Blynyddol

2017-2018

Cynnwys

Rhagair 3

Pennod 1: Arweinyddiaeth 4
Cydraddoldeb yng Nghymru 4
Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Ein Rôl fel Cyflogwr 5
Rheoli Perfformiad 5

Pennod 2: Sgiliau a Hyfforddiant 6
Data Hyfforddiant Craidd yn ôl Nodweddion Gwarchodedig 6
Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 8
Hyfforddiant Cydraddoldeb Arall 9
Y Gymraeg 9

Pennod 3: Darparu Adnoddau 11
Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2018 11
Dynion a Menywod yn y Gweithlu 21
Gweithgarwch Recriwtio 23
Gweithgareddau Allgymorth 32
Cynlluniau Lleoli 32
Y Rhaglen Brentisiaethau 33

Pennod 4: Cefnogi ein Staff 34
Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff 34
Cefnogaeth i Staff 34
Llwyddiannau 35

Pennod 5: Gwobrau a Chydnabyddiaeth 36
Gwobr Amrywiaeth Llywodraeth Cymru 36
Meincnodi Amrywiaeth yn y Gweithle 36
Yr Arolwg Pobl 37

Pennod 6: Y Dyfodol 39

Atodiad A: Ffigurau Cynrychiolaeth yn y Gweithle wedi'u Dadgyfuno yn ôl Ethnigrwydd a Chrefydd/Cred 40

Atodiad B: Ymadawyr yn ôl Nodweddion Gwarchodedig 42

Atodiad C: Data Cwynion a Disgyblu yn ôl Nodweddion Gwarchodedig 45

Atodiad D: Cyflogau Dynion a Menywod yn ein Gweithlu 48

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36768 ISBN digidol 978-1-83876-061-8

Rhagair

Pleser mawr yw cyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2018.

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad â diwylliant cynhwysol ac amrywiol, lle mae pawb yn teimlo'u bod yn perthyn, yn gwneud eu cyfraniad eu hunain ac yn gallu mynegi eu hunain heb deimlo dan bwysau i gydymffurfio â stereoteip penodol. Mae gan bobl Cymru, yr ydym yn eu gwasanaethu, hawl hefyd i edrych ar Lywodraeth Cymru a theimlo'i bod yn eu cynrychioli hwy. Bydd y data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn o gymorth, unwaith eto, i roi ffocws i'n camau gweithredu yn y flwyddyn sydd i ddod a'n helpu i gyflawni ein hymrwymiad i fod yn batrwm i eraill yn yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020.

Rydym wedi gwneud cynnydd eto eleni, gan adeiladu ar ein Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant 2017-2020 a chanolbwyntio ar sut i fod yn sefydliad sy'n batrwm i eraill erbyn 2020.

Yn ystod y flwyddyn hon fe lwyddom i gyflawni achrediad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd); dyfarnwyd statws Lefel Aur inni unwaith eto gan A:gender (rhwydwaith y Gwasanaeth Sifil ar gyfer staff traws a rhyngrywiol), ac roeddem ar restr cant uchaf Stonewall am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gan gyrraedd yn uwch nag erioed – 12fed yn y DU (allan o 434 o ymgeiswyr).

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n rhan o'n rhwydweithiau staff ffurfiol ac anffurfiol ac sy'n rhoi cymaint o amser ac egni i roi cefnogaeth, anogaeth ac arweiniad.

Gillian Baranski OBE

Pennod 1

Arweinyddiaeth

Mae gwaith wedi parhau eleni i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle, gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, yr Hyrwyddwyr Amrywiaeth a'r Rhwydweithiau Staff.

Mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd yn sicrhau bod cynhwysiant yn y gweithle'n cael ei ystyried ar y lefelau uchaf yn y sefydliad. Mae'r Bwrdd, dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, yn trafod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ffurfiol bob chwe mis. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi mynegi ymrwymiad clir i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sefydliad.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant gyfarfodydd 5 o weithiau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r aelodau'n cynnwys y pedwar Hyrwyddwr Amrywiaeth (aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil o bob un o'r Grwpiau Busnes), Cadeiryddion y Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff, Ochr yr Undebau Llafur ac Adnoddau Dynol.

Cydraddoldeb yng Nghymru

Daeth Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ('Rheoliadau 2011') i rym ar 6 Ebrill 2011 at ddiben gwella'r modd y cyflawnir dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Rheoliadau 2011 yn gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Fe gafodd y camau gweithredu a nodwyd i gydymffurfio â Rheoliadau 2011 eu rhoi ar waith ac mae trefniadau adrodd wedi'u sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth.

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn cydymffurfio â rheoliad 9 o Reoliadau 2011 (sy'n gymwys i Awdurdodau perthnasol gan gynnwys Llywodraeth Cymru). Mae'n ymwneud â gweithwyr cyflogedig, yn ogystal â'r rhai sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliad. Caiff yr wybodaeth a gasglwyd mewn perthynas â gweithwyr cyflogedig ei rhannu i is-gategorïau, yn ôl nodweddion gwarchodedig a gafodd eu datgan.

Diben casglu'r wybodaeth hon ac adrodd arni yw sicrhau bod gan bob corff cyhoeddus ddarlun clir o'r materion cydraddoldeb sy'n ei wynebu; bod modd monitro cynnydd a hwyluso newid cadarnhaol i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Ein Rôl fel Cyflogwr

Yn dilyn cyhoeddi ein hamcanion cydraddoldeb ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 ym mis Rhagfyr 2016.
Mae Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 i'w gweld yma: www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?skip=1&lang=cy

Ceir amcan penodol yn ymwneud â'n rôl fel cyflogwr. Yr amcan y cytunwyd arno yw:

"Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020."

Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad i sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn darparu amgylchedd teg a chynhwysol, lle mae cyfle i bawb fod yn hwy eu hunain a chyflawni eu potensial. Yn ystod 2016-17, cynhaliwyd proses ymgysylltu ac ymgynghori gyda staff, y rhwydweithiau amrywiaeth ac Ochr yr Undebau Llafur er mwyn datblygu camau gweithredu i'n helpu i gyflawni'r amcan hwn. Yn dilyn hynny cafodd Cynllun Gweithredu 2017-2020 ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2017.

Rheoli Perfformiad

Mae'r Map Perfformiad a Photensial (a adwaenir hefyd fel y Grid 9 Blwch) yn helpu'r sefydliad i adnabod a datblygu doniau, ac i ddeall ble mae'r bylchau o ran sgiliau er mwyn datblygu dull integredig o ddatblygu pobl. Datblygwyd y Grid 9 Blwch i gefnogi ein proses Adolygiad Rheoli Perfformiad a'n gwaith o gynllunio'r gweithlu. Trwy fynd ati fel hyn, y nod yw cael darlun ehangach o fedr a gallu ein pobl.

Yn ystod y flwyddyn 2017-2018, cyflwynwyd Amcan Arweinyddiaeth. Bellach mae gan yr holl reolwyr llinell amcan corfforaethol safonol, gyda'r bwriad o bwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth dda fel rhan hanfodol o swydd pob rheolwr llinell. Yr amcan yw: "Arwain ac ysgogi fy nhîm ac arddangos fy ymrwymiad at Gynllun Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru." Fe gafodd yr amcan newydd ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn dilyn argymhelliad gan Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, Gillian Baranski ac adborth o'n rhwydweithiau staff a Hyrwyddwyr Amrywiaeth y Grwpiau.

Pennod 2

Sgiliau a Hyfforddiant

Data Hyfforddiant Craidd yn ôl Nodweddion Gwarchodedig

Cynigiwyd nifer o gyrsiau hyfforddi craidd yn 2017-18, gyda'r nod o ddatblygu set sgiliau'r staff ymhellach.

Mae'r manylion presenoldeb ar gyfer yr holl hyfforddiant craidd yn ôl nodweddion gwarchodedig i'w gweld isod:

Tabl 1 – Presenoldeb mewn hyfforddiant craidd yn ôl nodweddion gwarchodedig

Rhywedd (Rhyw)				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	9130	64	2720	61
Dynion	5160	36	1760	39
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Oedran				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
16-24	520	4	120	3
25-29	980	7	250	6
30-34	1490	10	410	9
35-39	2080	15	640	14
40-44	1880	13	610	14
45-49	2360	17	690	15
50-54	2120	15	680	15
55-59	1750	12	620	14
60-64	890	6	370	8
65+	210	1	100	2
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Anabledd

	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Anabl	950	7	240	5
Heb Ddatgan	410	3	130	3
Ddim yn Anabl	12450	87	3960	88
Gwell Gen i Beidio â Dweud	480	3	160	4
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Ethnigrwydd

	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Heb Ddatgan	130	1	50	1
Ethnigrwydd Arall	350	2	110	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	520	4	170	4
Gwyn	13290	93	4150	93
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Crefydd/Cred

	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Cristnogaeth	6170	43	1920	43
Heb Ddatgan	220	2	80	2
Dim Crefydd/Cred	3830	27	1110	25
Crefydd/Cred Arall	570	4	170	4
Gwell Gen i Beidio â Dweud	3500	24	1200	27
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Cyfeiriadedd Rhywiol

	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Heterorywiol	11920	83	3720	83
Heb Ddatgan	220	2	80	2
Cyfeiriadedd Rhywiol Arall	500	4	130	3
Gwell Gen i Beidio â Dweud	1640	11	550	12
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Mamolaeth/Beichiog	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Nac ydw	13650	96	4280	95
Ydw	640	4	200	5
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Statws Priodasol	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Priod/Partneriaeth Sifil	6440	45	2050	46
Heb Ddatgan	3430	24	1200	27
Statws Arall	1470	10	420	9
Gwell Gen i Beidio â Dweud	0	0	0	0
Sengl	2940	21	820	18
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Rhywedd adeg Geni	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Heb Ddatgan	9110	64	3130	70
Ddim yr un Fath	*	0	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	5010	35	50	1
Yr un Fath	170	1	1300	29
Cyfanswm[1]	**14290**	**100**	**4480**	**100**

Trwy'r adroddiad hwn mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Mae ffigurau is na 5 wedi cael eu dileu, a nodir hwy â * Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd y cyfansymiau'n adio'n union oherwydd y talgrynnu. Mae'r canrannau'n seiliedig ar y cyfanswm cyfrif pennau (5330) a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad. Mae'r data'n seiliedig ar gyfrif pennau ar ddiwedd y mis ar 31 Mawrth 2018.

Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r holl gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu prif-ffrydio drwyddynt draw.

Dechreuodd trydydd cohort 'Rhaglen Menywod fel Arweinwyr' ym mis Mehefin 2017, gyda'r cyfle i'r rhai a gymerodd ran fynychu cynhadledd Women into Leadership. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi'r nod o gydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau yn yr Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020 ac roedd yn agored i fenywod uchel eu perfformiad yn y Band Gweithredol.

Dechreuodd ail gymal y Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer Cydweithwyr BAME ym mis Hydref 2017. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys rhagor o ddysgu drwy brofiad, dosbarthiadau meistr, cysgodi ac elfen benodol wedi'i theilwra i bob cynrychiolydd.

Yn ystod 2017-18 cynigiwyd dosbarth meistr ar Ragfarn Ddiarwybod, sy'n orfodol i'r holl Uwch Weision Sifil. Roedd hyn yn ychwanegol at y dysgu ar-lein sy'n orfodol i'r holl staff os ydynt mewn swydd reoli neu'n cymryd rhan mewn proses recriwtio.

Fe wnaethom barhau i gynnig sesiynau ymwybyddiaeth ar-lein trwy System Rheoli Dysgu Llywodraeth Cymru a Civil Service Learning ar bynciau fel Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth – y Ffeithiau; Ymwybyddiaeth o Anabledd; Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Ymwybyddiaeth o LHDT; Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl; Ymwybyddiaeth o Hil; Parch yn y Gweithle; Ymdrin â Bwlio, Aflonyddu a Gwahaniaethu a Dod yn Gyfaill Dementia.

Fe wnaethom hefyd gynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Urddas a Pharch. Rhoddwyd sylw i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein hyfforddiant sefydlu gorfodol hefyd.

Hyfforddiant Cydraddoldeb Arall

Fe wnaethom hefyd barhau i gynnig hyfforddiant ar-lein ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Y Gymraeg

Y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Fe barhaodd y Strategaeth i ddarparu fframwaith i'r sefydliad asesu a chynllunio ar gyfer diwallu ei anghenion o ran sgiliau dwyieithrwydd trwy ei strwythurau sefydliadol, ac i adnabod a datblygu'r sgiliau sydd gan staff i ddiwallu'r anghenion hyn. Caiff niferoedd y staff a ddatganodd bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o'u cofnod personol yn 2017-18 eu nodi isod.

Tabl 2a – Sgiliau iaith staff sy'n gallu defnyddio pob sgil yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith neu ym mhob un ohonynt

	Nifer	%
Darllen	1290	24
Siarad	1200	22
Deall	1260	24
Ysgrifennu	1030	19

Tabl 2b – Sgiliau a ddatganwyd gan staff ar draws pob lefel o sgiliau yn y Gymraeg (dechreuwr i hyfedr)

	Nifer	%
Darllen	3030	57
Siarad	2620	49
Deall	2850	53
Ysgrifennu	2260	42

Hyfforddiant Iaith

Mae darpariaeth Llywodraeth Cymru o ddosbarthiadau wythnosol yn gweithio dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18, newidiodd trefniadau cytundebol a chyflenwol darparu'r hyfforddiant hwn. Yn gynharach yn y flwyddyn, cynigiwyd dosbarthiadau ar safle ein swyddfeydd mwyaf, ond yn y flwyddyn academaidd newydd cynhaliwyd y dosbarthiadau yn eiddo'r cyflenwyr.

Dyrannwyd cyfanswm o £64,657.38 ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn trwy'r Rhaglen Ddysgu a ariannwyd drwy'r Gyllideb Hyfforddiant a Datblygu Corfforaethol. Ysgol Iaith Acen, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth enillodd y cytundeb i ddarparu gwersi ar draws Cymru.

Ar ben hynny, fe gafodd yr holl staff wybod am y ddarpariaeth Gymraeg rhad ac am ddim sydd ar gael drwy fenter Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau preswyl/dwys ac e-ddysgu ar-lein.

Roedd ystod o weithgareddau allgyrsiol ar gael er mwyn i ddysgwyr gael mwy o gyswllt â'r Gymraeg, a chawsant eu trefnu mewn modd a oedd yn cefnogi'r broses ddysgu. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys rhaglen fentora, Coffi a Chlonc – sesiynau anffurfiol amser cinio, gwersi anffurfiol, grwpiau sgwrsio, e-ddysgu a gwersi dal i fyny.

Hyfforddiant Galwedigaethol

Mae rhywfaint o hyfforddiant gorfodol Llywodraeth Cymru ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo galw clir amdano, er enghraifft Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

Pennod 3

Darparu Adnoddau

Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2018

Cyflwynir gwybodaeth eang ac amrywiol am ein gweithlu a'n harferion recriwtio, yn ôl nodweddion gwarchodedig, yn y bennod hon. Daw'r wybodaeth o'n systemau adnoddau dynol oni nodir yn wahanol.

Mae gan bob aelod o staff gofnod personél cyfrinachol y gall ei ddiweddaru ar-lein. Fel rhan o'r cofnod ar-lein hwn, gofynnir i staff ddarparu gwybodaeth am eu statws amrywiaeth. Mae'r wybodaeth a ddarperir ar sail wirfoddol yn unig ac yn helpu i gynorthwyo'r sefydliad i ddatblygu dealltwriaeth well am amrywiaeth y gweithlu, adnabod materion a chymryd camau gweithredu lle y bo angen.

Yn yr holl wybodaeth a gyflwynir yn yr adran hon, mae 'Heb ddatgan' yn cyfeirio at nifer y staff nad ydynt wedi cwblhau cwestiwn monitro amrywiaeth ac mae 'Gwell gen i beidio â dweud' yn cyfeirio at nifer y staff sydd wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn ymateb i gwestiwn penodol at ddibenion monitro amrywiaeth. Er mwyn sicrhau a chynnal cyfrinachedd ein staff, mae'r data wedi cael ei dalgrynnu i'r deg agosaf ac mae ffigurau islaw pump wedi cael eu dileu oni nodir yn wahanol.

Mae'r gweithlu wedi lleihau ychydig ond mae'r cymysgedd o ran amrywiaeth ar y cyfan wedi aros yn gymharol ddigyfnewid dros y 12 mis diwethaf (1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018).

Tabl 3 – Y Gweithlu yn ôl Rhywedd (Rhyw)

Rhywedd (Rhyw) (Pob Patrwm Gweithio)		
	Nifer	%
Menywod	3160	59
Dynion	2170	41
Cyfanswm[1]	**5330**	**100**

Ffigur 1 – Y Gweithlu yn ôl Rhywedd (Rhyw)



Tabl 4 – Y Gweithlu yn ôl Oedran

Oedran		
	Nifer	%
16-24	170	3
25-29	300	6
30-34	520	10
35-39	790	15
40-44	730	14
45-49	830	15
50-54	840	16
55-59	700	13
60-64	360	7
65+	90	2
Cyfanswm[1]	**5330**	**100**

Ffigur 2 – Y Gweithlu yn ôl Oedran



Tabl 5 – Y Gweithlu yn ôl Anabledd

Anabledd		
	Nifer	%
Anabl	260	5
Heb Ddatgan	170	3
Ddim yn Anabl	4710	88
Gwell Gen i Beidio â Dweud	190	4
Cyfanswm[1]	**5330**	**100**

Ffigur 3 – Y Gweithlu yn ôl Anabledd



Tabl 6 – Y Gweithlu yn ôl Ethnigrwydd

Ethnigrwydd		
	Nifer	%
Heb Ddatgan	110	2
Ethnigrwydd Arall	120	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	190	4
Gwyn	4910	92
Cyfanswm[1]	**5330**	**100**

Ffigur 4 – Y Gweithlu yn ôl Ethnigrwydd



Tabl 7 – Y Gweithlu yn ôl Crefydd neu Gred

Crefydd/Cred		
	Nifer	%
Cristnogaeth	2260	42
Heb Ddatgan	140	3
Dim Crefydd/Cred	1230	23
Crefydd/Cred Arall	210	4
Gwell Gen i Beidio â Dweud	1480	28
Cyfanswm[1]	**5330**	**100**

Ffigur 5 – Y Gweithlu yn ôl Crefydd neu Gred



Tabl 8 – Y Gweithlu yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol		
	Nifer	%
Heterorywiol	4370	82
Heb Ddatgan	140	2
Cyfeiriadedd Rhywiol Arall	150	3
Gwell Gen i Beidio â Dweud	670	13
Cyfanswm[1]	5330	100

Ffigur 6 – Y Gweithlu yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol



Tabl 9 – Y Gweithlu yn ôl Statws Priodasol

Statws Priodasol		
	Nifer	%
Priod/Partneriaeth Sifil	2390	45
Heb Ddatgan	1480	28
Statws Arall	480	9
Gwell Gen i Beidio â Dweud	0	0
Sengl	980	18
Cyfanswm[1]	5330	100

Ffigur 7 – Y Gweithlu yn ôl Statws Priodasol



Tabl 10 – Y Gweithlu yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth

Beichiogrwydd/Mamolaeth		
	Nifer	%
Nac ydw	5230	98
Ydw	100	2
Cyfanswm[1]	5330	100

Ffigur 8 – Y Gweithlu yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth



Tabl 11 – Y Gweithlu yn ôl Rhywedd Genedigol

Rhywedd Genedigol yr Un Fath		
	Nifer	%
Nac oedd	*	*
Heb Ddatgan	3930	74
Gwell Gen i Beidio â Dweud	50	1
Oedd	1350	25
Cyfanswm[1]	5330	100

Ffigur 9 – Workforce by Birth Gender



Dynion a Menywod yn y Gweithlu

Mae'r wybodaeth am amrywiaeth o'n systemau Adnoddau Dynol yn darparu'r data isod sy'n rhoi gwell dealltwriaeth am y cydbwysedd rhwng y rhywiau ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu rhwng dynion a menywod.

Mae gan y rhan fwyaf o broffesiynau hollt cyfartal, mwy neu lai, ond mae mwy o fenywod mewn rhai fel Cyllid; Adnoddau Dynol; Cyflawni Gweithredol; Cyflawni Polisi a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ôl y data, mae menywod hefyd yn fwy tebygol na dynion o weithio rhan amser.

Tabl 12 – Proffesiwn

Proffesiwn	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Cyfathrebu	90	50	140
Economeg	20	30	50
Peirianneg	10	40	50
Rheoli Cyfleusterau	30	50	80
Cyllid	230	160	390
Iechyd	60	30	90
Adnoddau Dynol	140	40	180
Archwilio Mewnol	20	10	30
Rheoli Gwybodaeth/Llyfrgell	60	60	120
Arolygwyr	180	50	130
Technoleg Gwybodaeth	50	90	140
Gwasanaethau Cyfreithiol	80	40	120
Marchnata	60	20	80
Cyflawni Gweithredol	880	620	1500
Cynllunio	10	20	30
Cyflawni Polisi	870	600	1470
Caffael a Rheoli Contractau	50	40	90
Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau	110	80	190
Ymchwil Cymdeithasol/Ymchwil Marchnad	50	30	80
Gwyddoniaeth	10	20	30
Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol	110	20	130
Ystadegau	20	40	60
Syrfewyr	10	30	40
Cyfieithu	30	10	40
Gwasanaethau Milfeddygol	*	*	*
Cyfanswm[1]	**3160**	**2170**	**5260**

Tabl 13 – Gradd

Gradd	Menywod	Dynion	Cyfanswm
SCSPS	*	0	*
SCS3	*	0	*
SCS2	10	30	40
SCS1	50	70	120
EB1	80	110	190
EB2	360	340	700
MB1	680	460	1140
MB2	870	460	1330
MB3	560	390	950
Cymorth Tîm	540	300	840
Arall	20	20	40
Cyfanswm[1]	**3160**	**2170**	**5350**

Tabl 14 – Math o Gontract

Contract	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Parhaol	3050	2080	5130
Dros dro	110	90	200
Cyfanswm[1]	**3160**	**2170**	**5330**

Tabl 15 – Patrwm Gweithio

Patrwm Gweithio	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Amser llawn	2230	2010	4240
Rhan-amser	930	160	1090
Cyfanswm[1]	**3160**	**2170**	**5330**

Cyflogau

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal yn rheolaidd. Archwiliad wedi'i gynllunio yw hwn i amlygu meysydd lle ceir risg o ran cyflog cyfartal yn system gyflogau Llywodraeth Cymru. Roedd yr archwiliad mwyaf diweddar yn un cadarnhaol iawn ar y cyfan gydag ychydig o risg os o gwbl o ddiffyg cydymffurfio ym mhob maes ac eithrio un (lwfansau proffesiynol). Mae'r lwfansau yr ystyrir eu bod yn risg yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Cyflog canolrifol

Mae'r cyflog canolrifol ar gyfer staff amser llawn wedi codi i £35,750 (ar 31 Mawrth 2018).

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2018 yn 7.96%. Mae hyn wedi gostwng ychydig ers 31 Mawrth 2017, pan oedd yn 8.08%. Ceir tabl o gyflogau dynion a menywod yn Atodiad D.

Rydym yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, er enghraifft drwy ein dyfarniad cyflog diweddaraf (ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2019) a oedd yn cynnwys codiadau uwch i staff ar y graddau is, y mae'r mwyafrif ohonynt yn fenywod, a thrwy ein menter 50:50 erbyn 2020, sy'n anelu at gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn yr Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020.

Rydym wedi ymrwymo i ymuno â Gwasanaeth Cyflogwyr Chwarae Teg i feincnodi ein sefyllfa o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau a datblygu Cynllun Gweithredu i wella cydraddoldeb a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hyn yn digwydd yn ystod 2018-2019.

Gweithgarwch Recriwtio

Mae'r gweithgarwch recriwtio a ddangosir yn cynnwys yr holl benodiadau ffurfiol y casglwyd data yn eu cylch ym mhob gradd. Mae 'allanol' yn golygu ymgeiswyr sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliad; mae 'mewnol' yn cyfeirio at staff sydd wedi ymgeisio am swydd newydd o fewn y sefydliad.

Ceisiadau Allanol am Swyddi (pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliad – 1 Ebrill 2017 – Mawrth 2018)

Tabl 16a – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Rhywedd

Data cydraddoldeb – Rhywedd	Cyfanswm
Menywod	1800
Dynion	1330
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	20
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16b – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Oedran

Data cydraddoldeb – Oedran	Cyfanswm
16-24	1300
25-29	510
30-34	330
35-39	300
40-44	220
45-49	200
50-54	140
55-59	100
60-64	40
65+	*
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	20
Iau na 16 oed	*
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16c – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Anabledd

Data cydraddoldeb – Anabledd	Cyfanswm
Ddim yn anabl	2910
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	50
Anabl	190
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16d – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Ethnigrwydd

Data cydraddoldeb – Ethnigrwydd	Cyfanswm
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig	10
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Unrhyw gefndir Asiaidd Arall	10
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd	20
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd	10
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Indiaidd	20
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd	40
Du, Affricanaidd, Caribïaidd	10
Du, Affricanaidd, Caribïaidd – Unrhyw gefndir du arall	*
Du, Affricanaidd, Caribïaidd – Du – Affricanaidd	40
Du, Affricanaidd, Caribïaidd – Du – Caribïaidd	*
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Unrhyw gefndir cymysg arall	10
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Gwyn ac Asiaidd	30
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	10
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	10
Grŵp ethnig arall – Unrhyw grŵp ethnig arall	10
Grŵp ethnig arall – Arabaidd	10
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	30
Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	*
Gwyn – Gwyddelig	20
Gwyn – Cefndir gwyn arall	110
Gwyn – Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, Prydeinig	2760
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16e – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Crefydd neu Gred

Data cydraddoldeb – Crefydd neu Gred	Cyfanswm
Agnostig	340
Anffyddiwr	480
Baha'i	*
Bwdhydd	20
Cristion	1050
Hindŵ	10
Dyneiddiwr	10
Jainiaeth	*
Iddew	*
Mwslim	100
Dim crefydd	910
Crefydd arall	20
Paganiaeth	10
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	190
Rastaffariad	*
Sikh	10
Tao	*
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16f – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Cyfeiriadedd Rhywiol

Data cydraddoldeb – Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Deurywiol	70
Dyn hoyw	100
Menyw hoyw, lesbiad	30
Heterorywiol/strêt	2780
Arall	20
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	150
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16g – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Priodas/Partneriaeth Sifil

Data cydraddoldeb – Priodas/Partneriaeth sifil	Cyfanswm
Nac ydw	2260
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	60
Ydw	840
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16h – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Hunaniaeth o ran Rhywedd

Data cydraddoldeb – Hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath adeg geni?	Cyfanswm
Nac oedd	10
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	20
Oedd	3130
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16i – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Beichiogrwydd/Mamolaeth

Data cydraddoldeb – Beichiog ar hyn o bryd/wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf?	Cyfanswm
Nac ydw	3060
Gwell Gen i Beidio â Dweud/Heb ddatgan	40
Ydw	50
Cyfanswm[1]	**3160**

Tabl 16j – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Absenoldeb mamolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf**

Data cydraddoldeb – Wedi cael absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?	Cyfanswm
Naddo	10
Do	40
Cyfanswm[1]	**50**

** Gofynnir y cwestiwn hwn os atebodd yr ymgeisydd 'Ydw' i Beichiog ar hyn o bryd/wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf

Ceisiadau Allanol am Swyddi (Staff a ymgeisiodd am swyddi eraill – 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018). Pob Gradd.

Tabl 17a – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Rhywedd

Data cydraddoldeb – Rhywedd	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Menywod	1130	270	760	90
Dynion	820	180	570	70
Gwell Gen i Beidio â Dweud	20	*	20	0
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17b – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Oedran

Data cydraddoldeb – Oedran	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
16-24	100	40	40	10
25-29	150	60	80	10
30-34	290	80	190	30
35-39	320	70	230	20
40-44	320	70	220	30
45-49	310	60	220	30
50-54	250	40	190	20
55-59	150	20	120	10
60-64	30	10	20	*
65+	10	0	10	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	50	10	40	0
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17c – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Anabledd

Data cydraddoldeb – Anabledd	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais
Ddim yn anabl	1820	430	1250	150
Gwell Gen i Beidio â Dweud	50	10	40	*
Anabl	90	10	70	10
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17d – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Ethnigrwydd

Data cydraddoldeb – Ethnigrwydd	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig	10	*	10	0
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd	*	0	*	0
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd	10	*	10	0
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Indiaidd	*	0	*	0
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd	10	*	10	*
Du, Affricanaidd, Caribïaidd	*	0	*	0
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Unrhyw gefndir cymysg arall	10	*	10	0
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Gwyn ac Asiaidd	10	*	10	*
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	10	0	10	0
Grwpiau ethnig lluosog, cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	10	*	*	*
Grŵp ethnig arall – Unrhyw grŵp ethnig arall	*	*	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	50	10	30	*
Gwyn – Gwyddelig	10	0	10	*
Gwyn – Cefndir gwyn arall	30	10	20	*
Gwyn – Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, Prydeinig	1800	430	1230	150
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17e – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Crefydd neu Gred

Data cydraddoldeb – Crefydd neu Gred	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Agnostig	140	30	80	20
Anffyddiwr	180	40	130	10
Bwdhydd	10	*	10	*
Cristion	820	170	600	50
Hindŵ	*	0	*	0
Dyneiddiwr	*	*	*	0
Iddewiaeth	*	0	*	0
Mwslim	10	*	10	*
Dim crefydd	620	170	400	60
Crefydd arall	10	*	10	0
Paganiaeth	*	0	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	160	50	110	10
Sikh	*	0	*	0
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17f – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Cyfeiriadedd Rhywiol

Data cydraddoldeb – Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Deurywiol	20	*	10	10
Dyn hoyw	40	10	20	10
Menyw hoyw, lesbiad	10	*	10	*
Heterorywiol/strêt	1750	400	1200	140
Arall	*	*	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	140	40	100	10
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17g – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Priodas/Partneriaeth Sifil

Data cydraddoldeb – Priodas/Partneriaeth sifil	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Nac ydw	830	200	550	80
Gwell Gen i Beidio â Dweud	70	10	50	10
Ydw	1070	240	750	80
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17h – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Hunaniaeth o ran Rhywedd

Data cydraddoldeb – Hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath adeg geni?	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Nac oedd	*	*	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	40	10	30	0
Oedd	1920	450	1310	160
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17i – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Beichiogrwydd/Mamolaeth

Data cydraddoldeb – Beichiog ar hyn o bryd/ wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf?	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Nac ydw	1870	440	1280	160
Gwell Gen i Beidio â Dweud	50	10	40	*
Ydw	40	10	30	*
Cyfanswm[1]	**1970**	**460**	**1350**	**160**

Tabl 17j – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Absenoldeb mamolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf

Data cydraddoldeb – Wedi cael absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?**	Cyfanswm	Llwyddiannus	Aflwyddiannus	Ni fwriwyd ymlaen â'r cais***
Naddo	20	*	10	*
Do	30	10	20	*
Cyfanswm[1]	**40**	**10**	**30**	*

*** Ystyr 'Ni fwriwyd ymlaen â'r cais' yw bod yr ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl/heb fynd i'r asesiad, bod y swydd wag wedi'i thynnu yn ôl neu bod y cynnig wedi cael ei wrthod

Gweithgareddau Allgymorth

Er mwyn gwella cynrychiolaeth yng ngweithlu Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a phobl o aelwydydd sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol ac sydd heb waith yn cael eu hannog i ystyried Llywodraeth Cymru fel dewis gyflogwr. I'r diben hwn, rydym wedi creu swyddogaeth Allgymorth a Lleoliadau yn ein hadran Adnoddau Dynol i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i'r grwpiau sydd dan yr anfantais fwyaf yng Nghymru. Dechreuodd y swyddogaeth ym mis Mehefin 2016 i ddatblygu'r mentrau allgymorth canlynol:

- Helpu i lunio rhaglen allgymorth i ysgolion gyda'r nod o feithrin cysylltiadau hirdymor gydag ysgolion a phrifysgolion trwy Gymru.
- Datblygu Strategaeth Allgymorth – yn rhoi manylion am y grwpiau addysgol, diwylliannol a chymunedol y dylem ymgysylltu â hwy wrth recriwtio'n allanol.
- Helpu i ddatblygu pecyn adnoddau allgymorth a fyddai'n pennu'r disgwyliadau o ran allgymorth pan fydd adrannau yn gweinyddu prosesau recriwtio.
- Gweithio gydag adrannau Llywodraeth Cymru i ddatblgu 'brand cyflogwr' cyson ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar ein huchelgais i fod yn gyflogwr mwy amrywiol.

Rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau sydd â buddiant mawr mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol ac aelwydydd heb waith wrth hysbysebu unrhyw gynlluniau recriwtio a arweiniwyd yn ganolog. Fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd recriwtio allanol arwyddocaol wedi cael effaith ar hyrwyddo digwyddiadau allgymorth a phresenoldeb ynddynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd, buom yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru a Chanolfannau Gwaith er mwyn annog ceisiadau amrywiol.

Mae lleoliadau ac interniaethau'n nodwedd reolaidd mewn nifer o broffesiynau, ac yn fwy diweddar mae hyn wedi cynnwys cynnig lleoedd i fyfyrwyr gradd sydd ar eu hail flwyddyn fel rhan o fodiwlau sy'n ymwneud â byd gwaith.

Cynlluniau Lleoli

Mae lleoliadau'n ffordd dda o gynnig cyfle i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol brofi swyddi amrywiol yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd lleoliadau ar y cynlluniau isod.

Cynhaliwyd adolygiad o'n cynlluniau lleoliadau, gyda'r bwriad o gynnig cynllun diwygiedig y flwyddyn nesaf, gan gynnwys datblygu Rhaglen Ysbrydoli Gwaith.

Mae'r Rheolwr Allgymorth a Lleoliadau yn parhau i sefydlu rhwydwaith o randdeiliaid mewnol ac allanol a fydd yn gallu helpu i gynllunio a datblygu cyfres o gynlluniau lleoli a gweithgareddau sy'n hyrwyddo gwaith Llywodraeth Cymru ac sy'n gyson â'n dyhead i fod yn gyflogwr y mae pobl yn dymuno gweithio iddo.

Tabl 18 – Cynlluniau Lleoliadau Cydraddoldeb a Gynigir

Cynllun	Grŵp Targed	Nifer a Leolwyd	Cyfnod y Lleoliad (wythnosau)
Rhaglen Interniaeth Amrywiaeth Haf	Israddedigion a graddedigion diweddar o gefndir ethnig lleiafrifol a chefndir economaidd-gymdeithasol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (Rhaglen blas ar swydd sy'n defnyddio Llwybr Carlam)	2	12 wythnos
Rhaglen Gymrodoriaeth Windsor	Israddedigion/Graddedigion o gefndir ethnig lleiafrifol	2	1 x 8 wythnos 1 x 50 wythnos

Y Rhaglen Brentisiaethau

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gennym 51 prentisiaeth Gweinyddu Busnes lefel 3 ledled Cymru. Fe ymunodd y prentisiaid mewn 2 garfan ym mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018. Gwelodd proses recriwtio 2017 gynnydd enfawr yn nifer y ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr amrywiol, gan arwain at ennill gwobr gan CIPD Cymru (Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu). Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adran Gwobrau ym Mhennod 5.

Edrych Tua'r Dyfodol

Byddwn yn cyflwyno 2 garfan arall o brentisiaid Gweinyddu Busnes yn ystod 2018, o'r cynllun allgymorth a recriwtio blaenorol. Rydym yn bwriadu lansio llwybr prentisiaeth newydd Digidol, Data a Thechnoleg Lefel 3 yn ystod 2018-2019 a chynnal cynlluniau Gweinyddu Busnes eraill ar draws Cymru ddiwedd 2019-20.

Rydym yn bwriadu profi ein Cynllun Ysbrydoli Gwaith yn ein swyddfa ym Merthyr ym mis Mehefin 2018 ac, yn dilyn gwerthusiad, rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynllun hwn i swyddfeydd eraill. Mae gennym raglen o weithgareddau sy'n cael eu cynnal wrth arwain at hyn, gan weithio gyda swyddfeydd Gyrfa Cymru lleol mewn ysgolion i ddenu grŵp amrywiol.

Pennod 4

Cefnogi ein Staff

Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff

Mae pedwar rhwydwaith amrywiaeth staff:

- Grŵp Ymwybyddiaeth a Chymorth ym maes Anabledd (DAAS).
- Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig (MESN).
- Rhwydwaith PRISM (LGBTI+).
- Rhwydwaith Menywod Gyda'i Gilydd.

Mae'r rhwydweithiau'n hunanlywodraethol ac yn enwebu eu cynrychiolwyr eu hunain sy'n cysylltu â'r cyflogwr. Eu nod yw cefnogi aelodau trwy ddarparu fforwm diogel ac effeithiol i rannu syniadau a mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi. Maent yn cynnig cyfleoedd ar gyfer coetsio, mentora, hyfforddi a igwyddiadau. Maent hefyd yn gweithio gyda'r sefydliad i gael dylanwad cadarnhaol ar ein polisïau a'n harferion. Mae Cadeiryddion y rhwydweithiau yn aelodau o'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Rhwydweithiau Anffurfiol

Mae gennym rwydweithiau anffurfiol o grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid:

- Rhwydwaith Gofalwyr.
- Rhwydwaith Materion y Meddwl (Iechyd Meddwl).
- Rhwydwaith Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.
- Rhwydwaith Mabwysiadu a Maethu.

Cefnogaeth i staff

Mae Llywodraeth Cymru am fod yn gyflogwr delfrydol, i annog gweithlu amrywiol a thalentog. Mae llawer o fanteision i weithio gyda ni. Mae opsiynau gweithio hyblyg, gan gynnwys rhan amser/rhannu swydd, gweithio yn ystod y tymor ac oriau cywasgedig. Mae'n polisïau mamolaeth/tadolaeth ac absenoldeb rhiant yn rhai hael. Mae gennym bolisïau ar gyfer gofalwyr ac ar bynciau fel canser yn y gweithle a'r menopos. Rydym yn darparu addasiadau ar gyfer staff ac absenoldeb arbennig ar gyfer anabledd. Mae gennym Dîm Iechyd Galwedigaethol a rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Rydym yn anelu at gynnig cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, a diwrnodau gwirfoddoli, gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.

Rydym yn anelu at ddarparu ystafelloedd addas ar gyfer gweddïo neu fyfyrio; gofod priodol ar gyfer bwydo ar y fron a thoiledau niwtral o ran y rhywiau.

Llwyddiannau yn ystod 2017-18

Lansio a chyflwyno rhaglen beilot Mentora o Chwith, gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ac 11 o Gyfarwyddwyr yn cael eu mentora gan aelod o un o'n rhwydweithiau amrywiaeth staff.

Cynnal rhaglen Cynhwysiant Stonewall ar gyfer staff yr Uwch Wasanaeth Sifil a'r Band Gweithredol.

Wythnos Cydraddoldeb yn ystod mis Mehefin 2017 – cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau amrywiaeth a chynhwysiant yn ein swyddfeydd, gyda dros 200 aelod o staff yn bresennol.

Llofnodi Ymrwymiad Gweithio Blaengar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydlu gweithgor i adolygu polisïau, canllawiau a chyfleusterau ar gyfer staff beichiog, rhieni newydd a'u rheolwyr llinell.

Ymuno â Meincnod Cyflogwyr Chwarae Teg i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau a datblygu cynllun gweithredu i wella'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Diweddaru'n polisi addasiadau rhesymol; lansio ein Polisi Menopos a chyflwyno hyfforddiant perthnasol.

Lansio grwpiau cymorth anffurfiol ar gyfer meithrin a mabwysiadu ac Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD).

Penodi Uwch Hyrwyddwyr anffurfiol ar gyfer rhwydweithiau ASD a Materion y Meddwl.

Adolygu hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant a datblygu hyfforddiant traws ar gyfer staff Adnoddau Dynol a chyflenwi gwasanaethau.

Cyflwyno STEP (Rhaglen Profiad Tymor Byr). Mae STEP yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr weithio mewn swyddi allweddol yn y sefydliad am gyfnod byr, gan ddatblygu sgiliau, profiadau a chysylltiadau newydd.

Pennod 5

Gwobrau a Chydnabyddiaeth

Gwobr Amrywiaeth Llywodraeth Cymru

Bob blwyddyn rhoddir gwobr i dîm neu unigolyn sy'n dangos arfer gorau mewn ymdrechion i annog, hybu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy eu gwaith.

Enillydd 2017 oedd yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol am eu rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Nod y rhaglen oedd gwella amrywiaeth yr unigolion sy'n sefyll mewn etholiad ar gyfer llywodraeth leol. Gan gydweithio gyda phleidiau gwleidyddol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, y rhan fwyaf amlwg o'r gwaith hwn oedd creu cynllun mentora yn cysylltu cynghorwyr presennol gyda dros 50 o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chynnig hyfforddiant a chymorth iddynt yn y gobaith y byddent yn symud ymlaen i sefyll mewn etholiad ac ennill seddi.

Gwobrau Eraill/Cydnabyddiaeth Arall

Enillodd y rhwydwaith PRISM wobr LGBTI+ 2017 Cynghrair yr Enfys Gwasanaeth Sifil y DU am ei waith yn y gymuned. Fe gafodd PRISM hefyd ei enwi yn rhwydwaith Stonewall Cymru ym mis Ionawr 2018.

Cyrhaeddodd Menywod Ynghyd a'r Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gwerthfawrogi Amrywiaeth Llywodraeth Cymru.

Enillodd ein Tîm Allgymorth a Lleoliadau wobr CIPD Cymru (Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu) 2017 am y Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau. Roedd y wobr hon am ein hymgyrch allgymorth a recriwtio ar gyfer ein cynllun prentisiaethau. Roedd y wobr yn cydnabod ein gwaith yn denu mwy o ymgeiswyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) i ymgeisio am ein cynllun prentisiaeth. Daeth bron i 600 cais i law ar gyfer y cynllun, o gymharu ag ychydig dros 100 yn 2016. Dywedodd 13.6% o'r ymgeiswyr eu bod yn dod o gefndir BAME – i fyny o 3% ar gyfer y rhaglen flaenorol. O'r ymgeiswyr llwyddiannus a benodwyd, roedd 15.7% o gefndir BAME.

Meincnodi Amrywiaeth yn y Gweithle

Fe gynhalion ni ymarfer meincnodi yn erbyn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ym mis Medi 2017 ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2016 – Medi 2017. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Ionawr 2018 ac roedd y sefydliad unwaith eto ymhlith 100 Uchaf y DU – gan gyrraedd yn uwch nag erioed eleni sef y 12fed yn y DU.

Llwyddwyd i gael achrediad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd) ym mis Hydref 2017.

Dyfarnwyd Statws Aur inni eto gan A:gender, sef Rhwydwaith Gwasanaeth Sifil y DU ar gyfer staff trawsryweddol a rhyngrywiol, ym mis Ionawr 2018.

Ym mis Awst 2017, llofnodwyd Ymrwymiad Gweithio Blaengar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n ceisio gwneud gweithleoedd gystal â phosib ar gyfer menywod beichiog a rhieni newydd.

Arolwg Pobl 2017

Cynhaliwyd Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru 2017 rhwng 2 a 20 Hydref 2017. Mae'r Arolwg Pobl yn casglu barn staff am eu profiadau o weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ein helpu i ddeall beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod y sefydliad yn fan ardderchog i weithio a rhoi'r gwasanaeth gorau posib i bobl a chymunedau Cymru.

Sgôr Mynegai Ymgysylltiad Staff Llywodraeth Cymru oedd 62%, yr un fath â'r arolwg blaenorol ac 1 pwynt canran yn uwch na meincnod Gwasanaeth Sifil y DU.

Roedd perfformiad Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant a thriniaeth deg yn dda, gan ennill sgôr cadarnhaol o 80%. Gwelodd y thema hon gynnydd bach o 1 pwynt canran o'r arolwg blaenorol, ac roedd 4 pwynt canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil. Roedd y perfformiad ar bob un o'r cwestiynau o fewn y thema hefyd yn dda, gan ennill sgôr cadarnhaol o leiaf 71%. Ar ben hynny, gyda phob un o'r cwestiynau hyn gwelwyd cynnydd bach mewn sgoriau cadarnhaol o gymharu â'r arolwg blaenorol, ac roeddent yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil. Er enghraifft, fe gafodd 'Mae fy nghydweithwyr yn fy nhrin â pharch' sgôr cadarnhaol o 88%, cynnydd o 2 bwynt canran ers yr arolwg diwethaf, ac roedd 3 pwynt canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil.

Roedd rhywfaint o amrywiad, fodd bynnag, yn y sgoriau ar gyfer ymgysylltiad y staff a chynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer prif grwpiau cydraddoldeb y sefydliad.

Statws Iechyd

Roedd y sgôr ymgysylltiad ar gyfer staff a ddywedodd fod ganddynt gyflwr, salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yn 60%, sydd 3 pwynt canran yn is nag ar gyfer staff nad oeddent yn dweud bod ganddynt gyflwr, salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor. Nid oedd unrhyw newid yn y sgôr ymgysylltiad ar gyfer y grŵp hwn o gymharu â'r arolwg blaenorol. Roedd ymgysylltiad ychydig yn is na chyfartaledd Llywodraeth Cymru (62%), ond dipyn yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (51%).

Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer staff a ddywedodd fod ganddynt gyflwr, salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yn 72%, sydd 11 pwynt canran yn is nag ar gyfer staff nad oeddent yn dweud bod ganddynt gyflwr, salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor, ond 2 bwynt canran yn uwch na'r arolwg blaenorol. Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer y grŵp hwn yn is na chyfartaledd Cymru (80%) ond yn uwch na Meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (66%).

Ethnigrwydd

Roedd y sgôr ymgysylltiad ar gyfer staff oedd yn dweud eu bod yn dod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn 62%, sydd ychydig (1 pwynt canran) yn is na'r sgôr ar gyfer staff a ddywedodd eu bod yn wyn, a 4 pwynt canran yn is o gymharu â'r arolwg blaenorol. Roedd yr ymgysylltiad ar gyfer y grŵp hwn yn gyson â Llywodraeth Cymru (62%) ond yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (65%).

Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg i staff BAME yn 70%, sydd 12 pwynt canran yn is nag ar gyfer staff Gwyn, a 5 pwynt canran yn is na'r arolwg diwethaf. Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer y grŵp hwn yn is na chyfartaledd Llywodraeth Cymru (80%) a meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (76%).

Cyfeiriadedd Rhywiol

Roedd y sgôr ymgysylltiad ar gyfer staff a ddywedodd eu bod yn Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu arall yn 65%, sydd ychydig (1 pwynt canran) yn uwch na'r sgôr ar gyfer staff heterorywiol a 5 pwynt canran yn uwch na'r arolwg blaenorol. Roedd yr ymgysylltiad ar gyfer y grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Llywodraeth Cymru (62%) a meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (58%).

Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu arall yn 81%, sydd 2 bwynt canran yn is na staff heterorywiol, ond 4 pwynt canran yn uwch na'r arolwg blaenorol. Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer y grŵp hwn ychydig yn uwch na chyfartaledd Llywodraeth Cymru (80%) ac yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (75%).

Hunaniaeth o ran rhywedd

Roedd y sgôr ymgysylltiad ar gyfer staff a ddywedodd eu bod yn fenywaidd yn 66%, sydd 6 pwynt canran yn uwch na sgôr staff a ddywedodd eu bod yn wrywaidd. Roedd yr ymgysylltiad ar gyfer y grŵp hwn yn unol â'r arolwg blaenorol ac yn uwch na chyfartaledd Llywodraeth Cymru (62%) a meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (61%).

Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer staff a ddywedodd eu bod yn fenywaidd yn 84%, 3 pwynt canran yn uwch na staff a ddywedodd eu bod yn wrywaidd. Eto, nid oedd newid o gymharu â'r arolwg blaenorol. Roedd y sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg ar gyfer y grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Llywodraeth Cymru (80%) a meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y grŵp cyfatebol (79%).

Pennod 6

Y Dyfodol

Mae rhagor i'w wneud i greu a chynnal gweithle cynhwysol lle gall pobl roi o'u gorau. Er ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir ac yn rhagweld y bydd ein sefyllfa yn cryfhau yn ystod pob cyfnod adrodd, mae rhagor o gynlluniau ar y gweill er mwyn cyflawni ein nod.

Mae'r gwaith yn parhau i roi ein Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2017-20 ar waith ac i sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i gael eu hymgorffori drwy'r sefydliad i gyd.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn anelu at wneud cynnydd pellach o ran ein targedau amrywiaeth staff ac at gyflawni rhagor o'r camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2017-20.

Byddwn yn cynnal adolygiad o gydraddoldeb rhwng y rhywiau gyda Chwarae Teg a'u cynllun Cyflogwr Chwarae Teg, gan ddatblygu Cynllun Gweithredu yn 2018-2019.

Byddwn ar restr Busnes yn y Gymuned o gyflogwyr gorau o ran hil am y tro cyntaf, yn ogystal â'r ymarferion meincnodi eraill yr ydym yn ymgymryd â nhw bob blwyddyn.

Byddwn yn gweithio gyda'n rhwydweithiau staff ac Ochr yr Undebau Llafur i ddrafftio a chyhoeddi diffiniad o'r Model Cymdeithasol o Anabledd a chanllawiau ynghylch unigolion anneuaidd.

Atodiad A

Ffigurau Cynrychiolaeth y Gweithlu wedi'u Dadgyfuno yn ôl Ethnigrwydd a Chrefydd/Cred

Ethnigrwydd		
	Nifer	%
Arabaidd	*	0
Asiaidd – Bangladeshaidd	*	0
Asiaidd – Tsieineaidd	10	0
Asiaidd – Indiaidd	10	0
Asiaidd – Pacistanaidd	10	0
Du – Affricanaidd	*	0
Du – Caribïaidd	10	0
Cymysg – Asiaidd a Gwyn	20	0
Cymysg – Du Affricanaidd a Gwyn	*	0
Cymysg – Du Caribïaidd a Gwyn	10	0
Heb Ddatgan	110	2
Cefndir Asiaidd Arall	10	0
Grŵp Ethnig Arall	10	0
Cefndir Ethnig Cymysg Arall	20	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	190	4
Gwyn	4910	92
Cyfanswm[1]	**5330**	**100**

Crefydd/Cred		
	Nifer	**%**
Agnostig	330	6
Anffyddiwr	480	9
Bwdhydd	10	0
Baha'i	0	0
Cristion	2260	42
Hindŵ	10	0
Dyneiddiwr	20	0
Islam	30	0
Japaneaidd/Shinto	*	0
Iddew	10	0
Dim crefydd	420	8
Crefydd arall	130	2
Paganiaeth	10	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	1480	28
Rastaffariad	*	0
Sikhiaeth	*	0
Heb Ddatgan	140	3
Cyfanswm[1]	**5330**	**98**

Atodiad B

Data Ymadawyr yn ôl Nodweddion Gwarchodedig

Rhywedd (Rhyw)	WG	WG
	Nifer	%
Menywod	180	55
Dynion	150	45
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Oedran	WG	WG
	Nifer	%
16-24	20	5
25-29	20	5
30-34	20	5
35-39	20	5
40-44	10	4
45-49	20	5
50-54	30	10
55-59	50	15
60-64	100	30
65+	50	16
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Anabledd	WG	WG
	Nifer	%
Anabl	20	7
Heb Ddatgan	20	5
Ddim yn Anabl	280	84
Gwell Gen i Beidio â Dweud	10	4
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Ethnigrwydd	WG	WG
	Nifer	%
Heb Ddatgan	20	6
Ethnigrwydd Arall	10	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	20	6
Gwyn	290	87
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Crefydd/Cred	WG	WG
	Nifer	%
Cristnogaeth	140	42
Dim Crefydd/Cred	70	21
Heb Ddatgan	20	5
Crefydd/Cred Arall	10	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	100	29
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Cyfeiriadedd Rhywiol	WG	WG
	Nifer	%
Heterorywiol	260	79
Heb Ddatgan	20	5
Cyfeiriadedd Rhywiol Arall	10	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	50	15
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Mamolaeth/Beichiogrwydd	WG	WG
	Nifer	%
Nac ydw	330	100
Ydw	0	0
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Statws Priodasol	WG	WG
	Nifer	%
Priod/Partneriaeth Sifil	140	42
Heb Ddatgan	100	32
Statws Arall	30	8
Gwell Gen i Beidio â Dweud	0	0
Sengl	60	19
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Rhywedd Genedigol yr Un Fath	WG	WG
	Nifer	%
Nac oedd	0	0
Heb Ddatgan	250	76
Gwell Gen i Beidio â Dweud	10	2
Oedd	70	22
Cyfanswm[1]	**330**	**100**

Atodiad C

Data Cwynion a Disgyblu yn ôl Nodweddion Gwarchodedig

Er mwyn darparu gwybodaeth ystyrlon a defnyddiol, mae nifer yr achosion sy'n ymwneud â chwynion a nifer yr achosion disgyblu wedi cael eu grwpio. Oherwydd y niferoedd bach, gallai rhannu nifer yr achosion sy'n ymwneud â chwynion a nifer yr achosion disgyblu arwain at ddatgelu pwy yw unigolion.

Rhywedd (Rhyw) Menywod		
	Nifer	%
Menywod	10	67
Dynion	10	33
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Oedran		
	Nifer	%
16-24	*	5
25-29	*	5
30-34	*	5
35-39	*	10
40-44	*	5
45-49	*	14
50-54	10	33
55-59	*	14
60-64	*	10
65+	0	0
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Anabledd		
	Nifer	%
Anabl	*	10
Heb Ddatgan	*	5
Ddim yn Anabl	20	86
Gwell Gen i Beidio â Dweud	0	0
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Ethnigrwydd		
	Nifer	%
Heb Ddatgan	0	0
Ethnigrwydd Arall	*	5
Gwell Gen i Beidio â Dweud	*	5
Gwyn	20	90
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Crefydd/Cred		
	Nifer	%
Cristnogaeth	10	29
Dim Crefydd/Cred	10	33
Heb Ddatgan	0	0
Crefydd/Cred Arall	*	5
Gwell Gen i Beidio â Dweud	10	33
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Cyfeiriadedd Rhywiol		
	Nifer	%
Heterorywiol/strêt	20	86
Heb Ddatgan	0	0
Cyfeiriadedd Rhywiol Arall	0	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	*	14
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Statws Priodasol		
	Nifer	%
Priod/Partneriaeth Sifil	10	43
Heb Ddatgan	*	5
Arall	*	19
Gwell Gen i Beidio â Dweud	0	0
Sengl	10	33
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Mamolaeth/Beichiogrwydd		
	Nifer	%
Nac ydw	20	100
Ydw	0	0
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Rhywedd Genedigol yr Un Fath		
	Nifer	%
Nac oedd	0	0
Heb Ddatgan	0	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	10	62
Oedd	10	38
Cyfanswm[1]	**20**	**100**

Atodiad D

Cyflog amser llawn sylfaenol ar gyfartaledd a'r Bwlch Cyflog yn ôl Graddfa

	Menywod	Dynion	Bwlch Cyflog
Llywodraeth Cymru	**£37,960**	**£41,242**	**-7.96%**
Cymorth Tîm	£21,648	£21,616	0.15%
Band Rheoli 3	£26,998	£26,958	0.15%
Band Rheoli 2	£34,770	£34,773	-0.01%
Band Rheoli 1	£43,875	£44,047	-0.39%
Band Gweithredol 2	£56,992	£57,247	-0.45%
Band Gweithredol 1	£69,175	£70,086	-1.30%
Uwch Wasanaeth Sifil	£84,692	£87,952	-3.71%